Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2556A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau ariannol allweddol ac mae ganddo fwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tymor canolig ond mae ganddo drefniadau i reoli ei gynaliadwyedd ariannol.

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau ariannol allweddol ac mae ganddo fwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tymor canolig ond mae ganddo drefniadau i reoli ei gynaliadwyedd ariannol 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae'r Cyngor yn dal i fod â bwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tymor canolig ac mae'r pandemig wedi effeithio ar ei allu i ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â hwn, ond mae bellach yn dechrau llunio ei gynlluniau i gau'r bwlch 8

Roedd lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn sefydlog ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020-21 11

Mae'r Cyngor yn dal i reoli ei wariant ar y cyfan o fewn y gyllideb, ond mae angen gwaith pellach i reoli gorwariannau mewn rhai gwasanaethau allweddol i helpu i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol 13

Mae'r Cyngor wedi cyflawni swm sylweddol is o arbedion nag yr oedd wedi'u cynllunio, yn rhannol oherwydd y pandemig, ac mae'n cydnabod yr angen i barhau i gryfhau ei broses o gynllunio arbedion, yn enwedig o ystyried maint yr arbedion y mae angen iddo'u cyflawni dros y tymor canolig 15

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn sefydlog ac yn cefnogi ei gynaliadwyedd ariannol 17

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mehefin 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb a chynllunio arbedion**<br>C1 Mae angen i'r Cyngor lunio a chanlyn arni â'i gynlluniau i gau'r bwlch yn y gyllideb dros y tymor canolig, gan gynnwys:<br>• parhau i gryfhau ei broses ar gyfer cynllunio arbedion;<br>• adnabod lefel yr arbedion y gall eu cyflawni trwy ei raglen drawsnewid;<br>• ystyried ei gynlluniau eraill, er enghraifft o ran ei ystâd, ei weithlu a'i ddefnydd o dechnoleg ddigidol;<br>• cynnwys unrhyw oblygiadau a chyfleoedd yn y tymor canolig a hir sy'n deillio o'r pandemig; a<br>• gwerthuso pam nad yw arbedion wedi cael eu cyflawni er mwyn dysgu gwersi a goleuo cynlluniau yn y dyfodol. |
| **Rhaglen gyfalaf**<br>C2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei raglen gyfalaf yn dal i fod yn fforddiadwy yn y tymor canolig a hir. |
| **Patrwm o orwario**<br>C3 O ystyried y patrwm o orwario mewn rhai gwasanaethau allweddol, mae angen i'r Cyngor gynnal ei ffocws ar ddeall y rhesymau dros y gorwariannau hyn a mynd i'r afael â hwy i sicrhau nad ydynt yn cael effaith negyddol ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig, yn enwedig o ystyried y bwlch a ragamcanir yn ei gyllideb dros y tymor canolig a phwysau cynyddol o ran y galw. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o risgiau ariannol allweddol ac mae ganddo fwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tymor canolig ond mae ganddo drefniadau i reoli ei gynaliadwyedd ariannol

### Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**, mae gwariant y Cyngor a'r colledion incwm a ddioddefwyd ganddo mewn perthynas â COVID-19 yn sylweddol, ond mae'r mwyafrif wedi cael eu hariannu gan gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Felly nid yw'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol fyrdymor y Cyngor hyd yma.
- mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal cymorth ariannol i gynghorau am chwe mis cyntaf 2021-22 yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Cyngor ynghylch lefel ddisgwyliedig y cyllid y gall ddisgwyl ei gael ar gyfer rhan gynnar 2021-22. Fodd bynnag, oherwydd natur barhaus y pandemig, mae risg o hyd o ran lefel yr incwm a'r gwariant y mae'r Cyngor yn disgwyl ei gael / ei ysgwyddo yn ail hanner y flwyddyn ariannol.
- mae'r Cyngor yn defnyddio dull gweddol ddarbodus o wneud ei waith cynllunio ariannol ac nid yw'n tybio y bydd lefelau'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau i'r un graddau ag y maent wedi gwneud dros y 12 mis diwethaf.
- mae'r Cyngor yn dechrau ystyried y goblygiadau a'r cyfleoedd tymor hwy sy'n deillio o'r pandemig ar gyfer ei wasanaethau a'i fodel gweithredu.
- mae ei gynllun ariannol tymor canolig (CATC), y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2021, yn amlygu rhai o'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â Covid, fel cyngor ac fel prifddinas. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud â methiant busnes a thrafnidiaeth, yn ogystal â'r newidiadau posibl mewn ymddygiad a'r effaith ar wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yn ei CATC nad yw wedi cynnwys effaith ariannol yr holl risgiau hyn yn ei waith cynllunio eto ond bydd yn adolygu hyn yn gyson.
- mae'r Cyngor yn cynhyrchu ciplun o gydnerthedd ariannol i'w helpu i reoli a monitro ei gydnerthedd ariannol. Caiff y ciplun ei ystyried yn rheolaidd gan y

Cabinet ac mae'n nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ystod o ddangosyddion ariannol ac yn nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 [Adroddiad Alldro 2020-21 i'r Cabinet, Mehefin 2021]**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £50.849 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £38.155 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £85.859 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £2.114 miliwn |

## Mae'r Cyngor yn dal i fod â bwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tymor canolig ac mae'r pandemig wedi effeithio ar ei allu i ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â hwn, ond mae bellach yn dechrau llunio ei gynlluniau i gau'r bwlch

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

Canfuom fel a ganlyn:


- mae'r Cyngor wedi adnabod bwlch yn ei gyllideb o oddeutu £15.5 miliwn ar gyfer 2021-22, a bwlch o ychydig o dan £81 miliwn rhwng 2022-23 a 2025-26 felly mae ei ragolwg ariannol yn gryn her.
- roedd sefyllfa alldro refeniw'r Cyngor yn 2020-21 yn fwy cadarnhaol yn bennaf am ei fod wedi cael lefel sylweddol o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyngor wedi achub ar y cyfle i gynyddu ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a fydd yn ei helpu i leihau'r bwlch yn ei gyllideb dros y tymor canolig. Fodd bynnag, fel y dengys **Arddangosyn 3**, mae maint y bwlch dros y tymor canolig yn dal i fod yn sylweddol.
- mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud dros £200 miliwn o arbedion yn y 10 mlynedd ddiwethaf.
- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod gan y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ond bod angen iddo ystyried sut yr oedd yn mynd i gau ei fwlch o ran cyllid yn y tymor hwy, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng ei raglen drawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig.
- mae ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol yn 2020-21 wedi canfod mai felly y mae hi o hyd i raddau helaeth gan bod effaith y pandemig wedi gohirio ei allu i ystyried y camau gweithredu allweddol y mae angen iddo'u cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir yn y tymor canolig, ond mae'n dechrau ystyried ei gynlluniau.
- mae'r Cyngor wedi adnabod ei bwysau ariannol sylweddol dros y tymor byr a chanolig yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig gan ystyried ei flaenoriaethau strategol, demograffeg, a phwysau'r galw.
- mae'r Cyngor wedi ystyried cyfres o adroddiadau ym mis Mai 2021 am ei fodel gweithredu a'i wasanaethau yn y dyfodol, ei raglen effeithlonrwydd barhaus, adferiad y ddinas, a'r newid yn yr hinsawdd. Y rhain fydd yn

darparu'r fframwaith allweddol ar gyfer y diweddariad arfaethedig nesaf i'w CATC ym mis Gorffennaf 2021.

- mae'r Cyngor wedi nodi ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r bwlch yn ei gyllideb o £15.549 miliwn yn 2021-22 trwy gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd parhaus, mentrau creu incwm a chynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.5%.
- mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried ei gynlluniau ar gyfer 2022-23, ond mae'n cydnabod bod angen gwaith ychwanegol sylweddol i nodi'n fwy eglur sut y mae'n bwriadu cau'r bwlch yn y gyllideb dros gyfnod y CATC, gan gynnwys lefel yr arbedion y mae'n disgwyl eu cyflawni trwy drawsnewid.
- er ei fod yn cydnabod yr anhawster gyda modelu hirdymor, mae'n gadarnhaol bod CATC y Cyngor yn nodi ei ragolwg ariannol tymor hir posibl a'i waith i fodelu'r gyllideb hyd at 2035-36 yn seiliedig ar allosod tueddiadau hanesyddol. Yn arbennig, mae'n dangos y gostyngiad posibl yn y gyllideb ar gyfer gwasanaethau y tu allan i addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ond mae hefyd yn amlygu bod y gwasanaethau eraill hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol ac y bydd angen i'r Cyngor ystyried hyn yn ei waith cynllunio ariannol.
- mae gan y Cyngor raglen gyfalaf uchelgeisiol iawn ac mae wedi amcangyfrif y bydd ei wariant ar ei raglen fuddsoddi gyfalaf ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2021-22 a 2025-26 yn agos at £1.3 biliwn (£869 miliwn o'r gronfa gyffredinol a £417 miliwn o'r gyllideb tai cyhoeddus). Rhagfynegir codiadau sylweddol mewn costau cyllido cyfalaf o ganlyniad. Y rhagolygon ar hyn o bryd yw y bydd costau cyllid cyfalaf y Cyngor a fynegir fel canran o'i gyllideb reoladwy'n codi o 16.4% yn 2020-21 i fwy na 23% yn 2024-25 a 2025-26 ac y bydd bwlch cyllido cyfalaf o oddeutu £14.2 miliwn yn y cyfnod hyd at 2025-26.
- mae'r tybiaethau allweddol yn CATC y Cyngor yn weddol ddarbodus. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys tybiaeth y bydd codiadau yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru islaw'r hyn a gafwyd yn 2020-21 gyda'r disgwyliad y bydd cyllid yn cynyddu 1% y flwyddyn rhwng 2022-23 a 2025-26. Mae'r CATC yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n egluro'r effaith pe bai amrywiad i rai o'r tybiaethau allweddol yn y CATC.
- mae'r Cyngor wedi cynnwys rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar gyfer treth tirlenwi yn ei ddatganiadau ariannol ers 2017-18. Mae'r Cyngor wedi gwneud peth cynnydd cadarnhaol o ran ymdrin â hyn gyda Cyllid a Thollau EM ond nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau, mae maint unrhyw rwymedigaeth bosibl yn dal i fod yn anhysbys ac felly gallai fod yn risg bosibl i gydnerthedd ariannol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn darparu diweddariadau rheolaidd ar ein cyfer am hyn a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2021-22 a 2025-26 o £96.447 miliwn (Ffynonellau: Strategaeth y Cyngor ar gyfer y gyllideb 2021-22, Chwefror 2021, a'i strategaeth ar gyfer y gyllideb 2022/23 a'i gynllun ariannol tymor canolig wedi'i ddiweddaru, Gorffennaf 2021)**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y pum mlynedd ganlynol.



## Roedd lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor wedi aros yn sefydlog ar y cyfan dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae wedi cynyddu’n sylweddol yn 2020-21

## Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau ‘buddsoddi i arbed’ sydd wedi’u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy’n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau’r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol yn y Cyngor yn 2019-20 nad oedd y Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu ei gyllideb refeniw.
- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 4**, mae lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi aros yn weddol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi cynyddu cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn 2020-21 o ychydig dros £47 miliwn. Mae hyn i’w briodoli’n bennaf i gael peth cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- mae’r Cyngor yn bwriadu defnyddio £0.75 miliwn o’i gronfa wrth gefn strategol ar gyfer y gyllideb i gefnogi’r gyllideb bob blwyddyn rhwng 2021-22 a 2025-26 felly mae’n rhagweld y bydd ei gronfa wrth gefn strategol ar gyfer y gyllideb yn lleihau £3.75 miliwn dros y blynyddoedd nesaf.
- mae’r Cyngor yn parhau i fod ag ystod o gronfeydd wrth gefn a chyllidebau digwyddiadol, sy’n rhoi opsiynau iddo i gefnogi ei gydnerthedd ariannol a rheoli pwysau parhaus ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae’r rhain yn cynnwys:
  – Cronfa’r Cyngor
  – cyllideb ddigwyddiadol plant sy’n derbyn gofal
  – cyllideb ddigwyddiadol gyffredinol
  – cronfa wrth gefn strategol y gyllideb
  – mecanwaith cydnerthedd ariannol.
- mae setliadau mwy cadarnhaol o ran y grant cynnal refeniw yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu nad yw’r Cyngor wedi gorfod defnyddio’i fecanwaith cydnerthedd ariannol, a sefydlwyd i helpu’r Cyngor i reoli unrhyw

ansicrwydd ynghylch cyllid. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu defnyddio hwn yn 2021-22 i ymdrin ag unrhyw ansicrwydd ariannol; yn lle hynny, mae'n bwriadu ei ddefnyddio i ariannu buddsoddiadau unigol.

- mae'r Cyngor yn cydnabod bod lefelau ei gronfeydd wrth gefn yn weddol isel o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yn fodlon bod lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn ddigonol, ond y bydd y Cyngor yn achub ar y cyfle i ailgyflenwi ei gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd pob blwyddyn lle gall wneud hynny.
- hyd yma, mae'r Cyngor wedi defnyddio ei gronfeydd wrth gefn yn ddarbodus i helpu i reoli ei gynaliadwyedd ariannol. Mae wedi cynnal cronfa'r Cyngor ar lefel o oddeutu £14.25 miliwn am y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n bwriadu ei chadw ar y lefel hon oni bai bod angen iddo ddefnyddio rhywfaint yn 2020-21 i wrthbwyso gorwariannau.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol [Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2016-17 – 2019-20, ei ddatganiad cyfrifon drafft ar gyfer 2020-21]**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 657.1 | 667.4 | 692.4 | 712.1 | 646.6 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 73.6 | 76.1 | 68 | 69.1 | 116.7 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [4] | 11.2% | 11.4% | 9.8% | 9.7% | 18.1% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 17/22 | 16/22 | 18/22 | 18/22 | [cymhariaeth 2020-21 ddim ar gael eto] |


[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau (ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru)**

Mae'r arddangosyn yn dangos y cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor rhwng 2015-16 a 2019-20 fel canran o gost net gwasanaethau ac o'i gymharu â'r uchaf a'r isaf o blith cynghorau eraill Cymru.




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y flwyddyn | 33.5% | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Caerdydd | 10.4% | 11.2% | 11.4% | 9.8% | 9.7% |
| Isaf yn y flwyddyn | 10.4% | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

## Mae'r Cyngor yn dal i reoli ei wariant ar y cyfan o fewn y gyllideb, ond mae angen gwaith pellach i reoli gorwariannau mewn rhai gwasanaethau allweddol i helpu i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

10 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

11 Canfuom fel a ganlyn:

- yn ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol yn y Cyngor yn 2019-20, canfuom fod y Cyngor wedi rheoli ei wariant o fewn y gyllideb, ond bod patrwm o orwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth, megis gwasanaethau cymdeithasol a gwastraff.

- canfuom sefyllfa debyg yn 2020-21 er bod y Cyngor wedi ailbennu sylfaen rhai o'i gyllidebau i ystyried gorwariannau cyson ac adolygu lefel yr arbedion y gallai'r gwasanaethau hyn yn realistig eu cyflawni.
- mae cyllideb 2021-22 yn cynnwys oddeutu £5 miliwn o achosion pellach o ailalinio'r gyllideb sy'n ystyried lefelau amcanestynedig y galw i barhau i fynd i'r afael â rhai o'r gorwariannau.
- mae adroddiad alldro'r Cyngor ar gyfer 2020-21 yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni sefyllfa fantoledig yn dilyn trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Darparodd Llywodraeth Cymru grantiau ychwanegol sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn, a olygodd fod nifer o gyfarwyddiaethau wedi nodi sefyllfaoedd gwell ac a alluogodd y Cyngor i gynyddu lefel ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar y cyfan. O ganlyniad, nid oedd angen i'r Cyngor ddefnyddio'i gyllideb Ddigwyddiadol Gyffredinol.
- er gwaethaf hyn, roedd gan rai Cyfarwyddiaethau orwariant ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r prif orwariannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (£629,000), gwasanaethau Llywodraethu a Chyfreithiol (£586,000) ac Addysg a Dysgu Gydol Oes (£275,000).
- mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth well am y rhesymau dros y gorwariannau yn ogystal â chynyddu cyllidebau dros gyfnod y CATC mewn ymateb i dwf demograffig a ragwelir. Mae gan y Cyngor rai mecanweithiau yn eu lle, megis ei gyllideb ddigwyddiadol gyffredinol a'i gyllideb ddigwyddiadol plant sy'n derbyn gofal, i reoli rhai o'r risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol.
- yn y gwasanaethau cymdeithasol, mae hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar ei raglenni ataliol i helpu i reoli pwysau'r galw yn y tymor canolig a hir. Fodd bynnag, o ystyried lefel barhaus y gorwariannau mewn rhai Cyfarwyddiaethau, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod Adrannau'n deall yn llawn beth yw'r rhesymau ac yn cael eu herio ynglŷn â'r rhesymau dros orwariannau parhaus yn y meysydd hyn. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ystod 2021-22 i asesu a yw camau gweithredu'r Cyngor yn cael effaith.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net [Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2016-17, 2017-18, 2018-19, 2019-20, a'i ddatganiad cyfrifon drafft ar gyfer 2020-21]**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan cyn unrhyw drosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn am y pum mlynedd ddiwethaf

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 578,161 | 586,984 | 608,913 | 623,589 | 656,186 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol | 570,996 | 584,532 | 617,042 | 622,409 | 608,576 |
| Swm y (gwarged)/gorwariant ar y cyfan | (7,165) | (2,452) | 8,129 | (1,180) | (47,610) |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 1.2% | 0.4% | 1.3% | 0.19% | 7.3% |

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni swm sylweddol is o arbedion nag yr oedd wedi'u cynllunio, yn rhannol oherwydd y pandemig, ac mae'n cydnabod yr angen i barhau i gryfhau ei broses o gynllunio arbedion, yn enwedig o ystyried maint yr arbedion y mae angen iddo'u cyflawni dros y tymor canolig

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

12 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

13 Canfuom fel a ganlyn:

- yn ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20, canfuom fod gan y Cyngor hanes o gyflawni'r mwyafrif o'i arbedion ar y cyfan, ond y byddai'n dod yn fwy a mwy o her i'w cyflawni yn y dyfodol a bod angen i'r Cyngor gryfhau ei broses cynllunio arbedion.

- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 6**, fe wnaeth y ganran o arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd gan y Cyngor yn 2020-21 leihau'n sylweddol i £4.477 miliwn (h.y. 52%) o'r targed arfaethedig o £8.557 miliwn. Nododd y Cyngor fod oddeutu £3.7 miliwn o'i arbedion wedi'u cynllunio a oedd yn gysylltiedig â chreu incwm a newid gwasanaethau yn 2020-21 heb gael eu cyflawni oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae rhai o'r rhain wedi cael eu lliniaru trwy gyllid Caledi COVID-19 gan Lywodraeth Cymru.
- ers 2016-17, mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion sy'n gyfanswm o oddeutu £56 miliwn. Mae hwn yn swm sylweddol ond mae £26 miliwn yn brin o'i darged arbedion gofynnol o £82 miliwn dros yr un cyfnod. Mae canran yr arbedion a gyflawnwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dirywio hefyd i 57% a 52% o'i dargedau yn y drefn honno.
- mae CATC y Cyngor yn nodi bod angen i'r Cyngor ganfod £58.1 miliwn o arbedion rhwng 2022-23 a 2025-26.
- fe wnaeth y Cyngor ein hysbysu ei fod wedi cryfhau agweddau ar ei broses cynllunio arbedion gyda mwy o drylwyredd a mwy o waith i herio cynigion ar gyfer arbedion. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen o hyd i ansawdd achosion busnes sy'n ategu arbedion wella ac mae'r setliad mwy cadarnhaol o ran y grant cynnal refeniw yn 2021-22 yn rhoi'r cyfle iddo wneud hyn. Mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau cynllunio arbedion er mwyn iddo gyflawni lefel yr arbedion sy'n ofynnol ac atal yr angen am unrhyw arbedion ychwanegol heb eu cynllunio gan wasanaethau eraill y Cyngor.
- fel y gwnaethom adrodd y llynedd, mae angen i'r Cyngor bennu lefel yr arbedion y mae'n debygol o'u cyflawni'n realistig o'i raglen drawsnewid hefyd.
- nododd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau fod trafodaethau ynglŷn ag arbedion ar gyfer 2022-23 eisoes wedi dechrau ac y byddant yn goleuo adroddiad y Cyngor ar ei Strategaeth ar gyfer y Gyllideb ym mis Gorffennaf 2021.
- rydym hefyd yn ystyried y byddai o fudd i'r Cyngor wneud ymarfer gwersi a ddysgwyd blynyddol i'w helpu i ddeall pam nad yw arbedion wedi cael eu cyflawni er mwyn dysgu gwersi a goleuo cynlluniau yn y dyfodol.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio [Ffynonellau: adroddiadau alldro'r gyllideb.]**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 25.892m | 14.157m | 14.296m | 19.157m | 8.557m |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 19.417m | 11.303m | 10.207m | 10.963m | 4.08m |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 6.475m | 2.854m | 4.089m | 8.194m | 4.477m |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 75% | 80% | 71% | 57% | 52% |

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn sefydlog ac yn cefnogi ei gynaliadwyedd ariannol

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

14 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Canfuom fel a ganlyn:

- Mae **Arddangosyn 8** yn darparu dadansoddiad o sefyllfa hylifedd y Cyngor ers 2015-16. Dengys y dadansoddiad fod hylifedd y Cyngor yn gryf, gyda

chymhareb o 1.5 neu uwch ar y cyfan ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae cymhareb hylifedd uwch nag 1.0 yn amlygu bod gan y Cyngor fwy o asedau cyfredol ar yr adeg honno mewn amser, na rhwymedigaethau cyfredol.

- mae asedau cyfredol y Cyngor wedi cynyddu'n bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod ei ddyledwyr byrdymor wedi cynyddu o £83.754 miliwn i £193.5 miliwn. Yn yr un modd, mae codiadau yn lefel ei gredydwyr byrdymor a'i fenthyciadau byrdymor (£154.1 a £35.4 miliwn yn y drefn honno o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 wedi golygu bod ei sefyllfa hylifedd wedi aros yn gymharol sefydlog.

**Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20 [Ffynhonnell: datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhwng 2015-16 a 2019-20 a'r datganiad cyfrifon drafft ar gyfer 2020-21]**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [5] | 163m | 170.9m | 183.5m | 190.1m | 248.6m | 333.5 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [6] | 115.3m | 114m | 111.5m | 129.4m | 154.7m | 199.4 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.4 | 1.5 | 1.6 | 1.5 | 1.6 | 1.7 |

[5] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

[6] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.